PWYLLGOR LLYWIO'R IAITH GYMRAEG

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ddydd Mercher 15 Mawrth 2023 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard (Cadeirydd), Ann Davies, Gill German, Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW), Swyddog yr Iaith Gymraeg (MC), Swyddog Datblygu Staff (MW), Swyddog Datblygu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (MJ), Gweinyddwr y Pwyllgor (RTJ).

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Merfyn Parry a Huw Williams.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

3 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Dim.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2022.

Hysbysodd Swyddog yr Iaith Gymraeg y pwyllgor na chynhaliwyd Eisteddfod y staff y flwyddyn hon; cynhaliwyd yr ail Eisteddfod ar-lein a phrin oedd y bobl a gymerodd ran. Felly, penderfynwyd gohirio'r Eisteddfod nesaf nes 2024.

PENDERFYNWYD *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2022 fel cofnod cywir.*

5 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF YNGHYLCH MWY NA GEIRIAU

Cyflwynodd y Swyddog Datblygu Staff yr adroddiad ynglŷn â'r Fframwaith 'Mwy na Geiriau' (a ddosbarthwyd o flaen llaw). Roedd yr adroddiad yn disgrifio datblygiad y fframwaith 'Mwy na Geiriau'.

Roedd y fframwaith ‘Mwy na Geiriau’ yn nodi sut ellid mynd ati ar y cyd i sicrhau cynnydd dan y themâu cyffredinol, diwylliant ac arweinyddiaeth. Roedd y camau y byddai’r Cyngor yn eu cymryd yn 2023-24 yn cynnwys:

- Darparu manylion ynglŷn â sut roedd y gwasanaethau’n bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg ynghyd â thargedau i sicrhau gwelliant
- Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu’r dyfodol
- Rhannu arferion gorau wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg a sut i wneud ‘Cynnig Gweithredol’ gyda’r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol neu’r rhai mewn gwasanaethau a gomisiynir.
- Darparu hyfforddiant ac adnoddau iaith i’r holl staff a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg fagu hyder wrth ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae’n ofynnol i Sir Ddinbych gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ar gyflawni camau gweithredu penodol wrth weithredu’r fframwaith. Wrth ddal i fonitro ar weithredu’r fframwaith, canolbwyntid ar brofiad y defnyddwyr o’r gwasanaeth a’r systemau monitro presennol (er enghraifft, fel rhan o arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru).

Trafododd y pwyllgor y materion canlynol ymhellach –

- Holodd y pwyllgor ynglŷn â chostau’r fframwaith a chadarnhaodd y Swyddog Datblygu Staff nad oedd y fframwaith ‘Mwy na Geiriau’ yn creu costau ychwanegol i’r Cyngor.
- Soniodd y pwyllgor am gostau dysgu Cymraeg gan holi a fedrai hynny effeithio ar unrhyw wasanaethau a fyddai’n trefnu bod aelodau o’u tîm yn cael gwersi Cymraeg. Cadarnhawyd mai’r unig gost fyddai cyflenwi staff ar adegau’r gwersi.
- Hysbyswyd y pwyllgor bod canran y siaradwyr Cymraeg yn y sector gofal mewnol yn Sir Ddinbych yn 20%, o gymharu â 12% yn y sector preifat. Cytunodd y swyddogion a’r aelodau y byddai angen newid diwylliant er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

PENDERFYNWYD *bod Pwyllgor Llywio’r Iaith Gymraeg yn nodi’r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â’r fframwaith ‘Mwy na Geiriau’.*

6 Y DIWEDDARAF AR Y CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Cyflwynodd Swyddog Datblygu’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y wybodaeth ddiweddaraf.

Hysbysodd y swyddog datblygu’r pwyllgor o’r saith o dargedau yn y strategaeth, sef –

(i) Cynyddu nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a lleoedd addysg yn yr iaith Gymraeg;

(ii) Cynyddu nifer y plant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg;
(iii) Codi safonau addysg yn y Gymraeg a sicrhau bod dysgwyr yn dod yn rhugl yn y Gymraeg erbyn diwedd eu haddysg orfodol;
(iv) Sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hintegreiddio'n llawn yng nghwricwlwm pob ysgol, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Saesneg;
(v) Darparu cymorth i athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol eraill er mwyn datblygu eu sgiliau Cymraeg a'u gallu i addysgu;
(vi) Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu mewn ysgolion ac annog rhieni a'r gymuned ehangach i arfer y Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol;
(vii) Sicrhau fod addysg Gymraeg yn hygyrch i bawb, beth bynnag eu cefndir neu'u hamgylchiadau.

Nod y targedau hyn oedd sicrhau fod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael ac yn hygyrch i bawb a ddymunai ei dderbyn, a chodi safonau addysg Gymraeg ledled Cymru.

Trafododd Aelodau'r materion canlynol yn fanylach –

- Wrth sôn am y targed cyntaf, bu'r aelodau'n trafod y lleoliadau niferus dan ddatblygiad a'r ffaith bod y datblygiad yn Ysgol Dewi Sant wedi'i oedi oherwydd pryderon Dŵr Cymru. Gobeithiai'r swyddogion, serch hynny, y datrysid y mater fel bod modd dal ati i ddatblygu'r cylch meithrin ar y safle. Roedd yno gais hefyd i ddod o hyd i leoliad addas yn Rhuthun. Dywedodd y swyddogion y gallai gymryd deuddeg mis neu fwy i gael y maen i'r wal yn Rhuthun, gan ei bod yn heriol dod o hyd i safle addas ar gyfer cylch meithrin yno.
- Trafodwyd yr heriau gydag addysg a'r Gymraeg. Dywedodd yr aelodau bod Llywodraeth Cymru'n deall yr heriau hynny, ond ei bod yn dal yn anodd recriwtio athrawon Cymraeg a bod dewis y rhieni'n creu rhwystr arall i'r Gymraeg mewn addysg.
- Cytunodd y pwyllgor y dylid rhoi mwy o bwyslais ar fuddion y Gymraeg ac y dylai pobl weld yr iaith fel sgil y dylid ei glodfori a'i annog.

Diolchodd y cadeirydd i'r swyddogion am ddod i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r pwyllgor ynghylch y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Cytunodd yr aelodau y dylai'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg fod yn eitem flynyddol ar y rhaglen.

PENDERFYNWYD *bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.*

Ar yr adeg hon hysbyswyd y cadeirydd nad oedd y pwyllgor â chworwm mwyach; torrodd y cyfarfod am egwyl o ddeg munud. Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.00 pm.

7 CANLYNIADAU CYFRIFIAD 2021

Rhoes Swyddog yr Iaith Gymraeg gyflwyniad i'r pwyllgor ynglŷn â'r canfyddiadau yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021.

Roedd cwestiynau'r cyfrifiad yn gofyn i unigolion asesu eu hunain. Gofynnid i'r unigolion ddewis yr holl opsiynau a oedd yn wir iddynt hwy. Gallai nifer o ffactorau ddylanwadau ar y modd yr oedd pobl yn asesu eu sgiliau a'u cofnodi. Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19).

Roedd yr adroddiad yn amlygu bod nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg (tair oed a hŷn) wedi gostwng ers Cyfrifiad 2011 o 562,000 i 538,000, a oedd 1.2% yn llai. Y rhan o Gymru â'r ganran fwyaf o siaradwyr Cymraeg oedd y gogledd-orllewin, a'r de-ddwyrain oedd â'r ganran leiaf. Hysbysodd Swyddog yr Iaith Gymraeg y pwyllgor y bu gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ymhob awdurdod lleol heblaw am Gaerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Yn Sir Gâr y cafwyd y gostyngiad mwyaf a hynny am yr ail gyfrifiad yn olynol.

Roedd bron i dri chwarter o'r boblogaeth wedi nodi yn y cyfrifiad nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg. Rhoes Swyddog yr Iaith Gymraeg wybodaeth i'r aelodau ynglŷn â phoblogaeth Cymru a fedrai fod wedi effeithio ar y cyfrifiad.

- Roedd poblogaeth Cymru wedi cynyddu tua 1.4% ers 2011.
- Roedd mwy o bobl a aned y tu allan i Gymru'n byw yma yn 2021 nag yn 2011
- Roedd canran y plant a phobl ifanc dan bymtheg yng Nghymru wedi gostwng ers 2011.

Yna hysbysodd Swyddog yr Iaith Gymraeg y pwyllgor o'r canlyniadau yn Sir Ddinbych; yn 2011 gallai 22,236 o bob tair oed neu hŷn siarad Cymraeg, sef 24.5% o'r boblogaeth o 90,527. Yng Nghyfrifiad 2021, 20,942 o bobl a fedrai siarad Cymraeg, a oedd yn ostyngiad o 2.1%. Roedd cyfanswm y boblogaeth hefyd wedi cynyddu i 93,055.

Diolchodd yr aelodau i Swyddog yr Iaith Gymraeg am y wybodaeth; er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg, nid oedd cyn waethed â'r disgwyl i lawer o bobl. Soniodd yr aelodau, fodd bynnag, nad oedd effaith Covid 19 ar y Gymraeg wedi dod i'r amlwg yn llwyr eto.

PENDERFYNWYD *bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn nodi canlyniadau Cyfrifiad 2021.*

8 STRATEGAETH DDRAFFT Y GYMRAEG 2023-28

Cyflwynodd Swyddog yr Iaith Gymraeg Strategaeth y Gymraeg 2023-28 (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gan rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r aelodau ynglŷn â'r amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu'r strategaeth newydd.

Roedd yr adroddiad yn sôn am ddatblygu Strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg yn Sir Ddinbych ac yn cyflwyno'r amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu'r strategaeth newydd.

Roedd Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi galluogi'r Llywodraeth i bennu safonau yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg ac roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r holl awdurdodau lleol fabwysiadu Strategaeth y Gymraeg wrth iddynt ymateb i'r Safonau.

Mabwysiadodd Cabinet Sir Ddinbych y strategaeth bresennol ym mis Mawrth 2017, ac roedd hi'n ymdrin â'r dull o hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd ohoni yn y sir; roedd disgwyl y byddai'r Cyngor yn diwygio'r strategaeth bum mlynedd wedi'i chyhoeddi.
Roedd y Cyngor wedi ystyried sawl enghraifft o arfer orau gan gynghorau eraill, y wybodaeth ddemograffig oedd ar gael a llwyddiannau'r strategaeth flaenorol.

Roedd yr aelodau a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth eisoes wedi trafod y meysydd â blaenoriaeth ac wedi eu cymeradwyo mewn egwyddor.

Wrth ddrafftio'r strategaeth, roedd y Cyngor wedi ymgysylltu ac ymgynghori â'r gwasanaethau a phartneriaethau mewnol ac allanol perthnasol.

Roedd y Cyngor wedi comisiynu'r Ganolfan Cynllunio Iaith i ddadansoddi data, gwneud gwaith ymchwil a llunio adroddiad sicrwydd ar ein Strategaeth y Gymraeg 2017-2022. Roedd gwaith yn digwydd ar y cyd i drafod y canfyddiadau y byddai rhai o'r camau gweithredu yn y Strategaeth yn seiliedig arnynt.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes bod Swyddog yr Iaith Gymraeg yn anfon y Strategaeth at yr aelodau hynny o'r pwyllgor nad oeddent yn bresennol, fel y gallent hwythau ymateb i'r Strategaeth.

PENDERFYNWYD *bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn cymeradwyo dull gweithredu'r Strategaeth, yr amserlen a'r camau gweithredu.*

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor i'w hystyried.

Trafododd y pwyllgor y materion canlynol ymhellach –

- Cytunodd y pwyllgor bennu eitem flynyddol ar y rhaglen ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg, ond y dylid dod â'r mater gerbron y pwyllgor yn gynt pe byddai mater o bwys yn codi yn y cyfamser.
- Cadarnhaodd y swyddogion y byddai eitem ynghylch Strategaeth y Gymraeg ar raglen y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD *yn amodol ar yr uchod, derbyn a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45pm.